# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 9 Mawrth 2023

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MERCHER, 15 MAWRTH 2023** am **10.00 am** yn **TRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 10)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2022 (copi ynghlwm).

**5 DIWEDDARIAD MWY NA GEIRIAU** (Tudalennau 11 - 14)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Datblygu Staff yn diweddaru'r pwyllgor ar y gwaith a gyflawnwyd gyda Mwy na Geiriau (copi ynghlwm).

**6 DIWEDDARIAD AR GYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

Derbyn diweddariad llafar gan Swyddog Datblygu CSGA ar y Gymraeg mewn Addysg.

**7 CANLYNIADAU CYFRIFIAD 2021**

Derbyn diweddariad llafar gan Swyddog yr Iaith Gymraeg ynglŷn â chanlyniadau Cyfrifiad 2021.

**8 STRATEGAETH IAITH DRAFFT 2023-28** (Tudalennau 15 - 52)

Derbyn adroddiad gan Swyddog yr Iaith Gymraeg ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu'r Strategaeth Iaith Gymraeg newydd (copi ynghlwm)

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 53 - 54)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi ynghlwm).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Ellie Chard
Ann Davies
Gill German
Huw Hilditch-Roberts
Paul Keddie
Elfed Williams
Huw Williams
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu*** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth 8 Tachwedd 2022 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Huw Hilditch-Roberts, Paul Keddie, Huw Williams ac Emrys Wynne

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Swyddog y Gymraeg (MC), Gweinyddwyr Pwyllgorau (SW (lletywr) RTJ)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Merfyn Parry ac Elfed Williams.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2022.

Ni chytunwyd ar benodi is-gadeirydd yn y cyfarfod blaenorol, fodd bynnag, cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne y dylid penodi'r Cynghorydd Elfed Williams yn gadeirydd ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Huw Williams. Cytunodd pawb oedd yn bresennol.

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.*

**5 SAFONAU IAITH GYMRAEG - SAFON 98**

Cyflwynodd y Swyddog Iaith (SIG) adroddiad Safonau'r Gymraeg - Safon 98 (a ddosbarthwyd yn flaenorol); roedd yr adroddiad yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg – yn benodol safon 98.

Amlygodd y cadeirydd yr atodiadau fel polisi Conwy er gwybodaeth; eglurodd y Swyddog Iaith y byddai'r polisi'n cael ei ddilyn wrth lunio'r polisi ar gyfer CSDd.

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych yn 2015, fel rhan o'u cyflwyno i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Crëwyd y Safonau mewn ymateb uniongyrchol i Fesur y Gymraeg (2011) a rôl Comisiynydd Y Gymraeg.

Cyflwynwyd y Safonau er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor deg â'r Saesneg. Mae angen i Sir Ddinbych gydymffurfio â 167 o Safonau sydd wedi cael eu rhannu rhwng pum maes allweddol: Darparu Gwasanaeth, Gwneud Polisïau, a Gweithredol. Cadw Cofnodion a Hyrwyddo.

Cafyd y drafodaeth ganlynol -

- Holodd y pwyllgor a fyddai'n rhaid i Hamdden Sir Ddinbych cyfyngedig gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yr un fath â Chyngor Sir Ddinbych; hysbysodd swyddogion yr aelodau y byddai Hamdden Sir Ddinbych yn cydymffurfio â'r un safonau â'r Cyngor.
- Cododd y pwyllgor bryderon y gallai gormod o waith gael ei alw ar y gweithlu ynglŷn â'r polisi gan obeithio na fyddai'n achosi gormod o waith i'r staff.
- Eglurodd y swyddogion i'r aelodau fod y polisi'n cael ei gyflwyno iddynt heddiw i weld a oeddent yn hapus gyda'r strwythur a'r geiriad cyn mynd ag ef i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Tîm Arwain Strategol cyn dod yn ôl i'r pwyllgor yn 2023 i'w gytuno'n derfynol.
- Sicrhaodd y Swyddog Iaith yr aelodau nad oedd iaith gohebiaeth â'r cyhoedd yn faich ar staff gan fod yr holl lythyrau cychwynnol yn cael eu hanfon yn ddwyieithog i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, pe bai'r aelod o'r cyhoedd yn ymateb drwy ddatgan ei ddewis iaith, yna byddai'n parhau yn ei ddewis iaith.
- Awgrymodd yr Aelodau y dylid cyfeirio drwy'r polisi i gyd at bolisïau sy'n bodoli eisoes megis enwi strydoedd, gan eu bod wedi cael eu trafod yn helaeth mewn amrywiol gyfarfodydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi cynnwys adroddiad Safonau'r Gymraeg - Safon 98.*

## 6 ADBORTH COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Cyflwynodd y Swyddog Iaith (SIG) adroddiad Adborth Comisiynydd y Gymraeg (a ddosbarthwyd yn flaenorol); roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ganlyniadau Adroddiad Monitro Comisiynydd y Gymraeg.

Bob blwyddyn, mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal gwiriadau ymysg sefydliadau sy'n gweithredu Safonau'r Gymraeg sy'n statudol, er mwyn sicrhau bod y sefydliadau hynny'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Mae tîm y Comisiynydd hefyd yn trefnu cyfarfod blynyddol er mwyn trafod y canfyddiadau ac i adrodd ar gynnydd Adroddiad blynyddol Monitro'r Gymraeg.

Eglurodd Dylan Jones, ar ran y Comisiynydd, ffordd newydd y Comisiynydd o weithio eleni ar edrych ar gydymffurfiaeth sefydliadau â'r safonau perthnasol. Recriwtio a pholisïau oedd eu blaenoriaeth.

Corff sy'n creu ac yn cyhoeddi dogfennau a ffurflenni

Yn ystod arolygon 2022-23, darganfuwyd nad oedd pob dogfen a ffurflen yn cynnwys datganiad yn y fersiynau Saesneg, yn dweud bod y fersiwn hefyd ar gael yn Gymraeg. Roedd dwy enghraifft o ddogfen nad oedd yn cydymffurfio â safon 49, sef:

Soniwyd am yr holl ddogfennau ar wefan y Cyngor, a gallai'r gwaith o roi'r nodyn ar bob un o'r rhain gymryd wythnosau/misoedd; roeddem yn aros am gadarnhad gan swyddfa monitro'r Gymraeg.

Nododd y Cyngor lefel ganolig o gydymffurfiaeth ar gyfer ei apiau, gan nodi nad oedd ap ParentPay ar gael yn Gymraeg. Trafodwyd nad oedd ParentPay yn ap yr oedd y Cyngor wedi ei gyhoeddi, a chadarnhawyd bod gan yr ysgolion gytundeb gyda'r cwmni.

Yn ystod arolygon 2022-23, nodwyd bod un neges ar Twitter ac un neges ar Facebook yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig ar gyfryngau corfforaethol y Cyngor.

- Defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth y corff - Nodwyd yn yr holiadur hunanasesu nad oedd gan y Cyngor bolisi ar ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth corff.
- Safonau recriwtio a phenodi - Nodwyd yn ystod arolygon 2022-23 bod dwy hysbyseb swydd yn cynnwys geiriau a/neu deitlau uniaith Saesneg.

Mae'r gwallau a amlygwyd eisoes wedi'u datrys.

- Diolchodd yr aelodau i'r Swyddog Iaith am yr adroddiad; fodd bynnag, amlygwyd rhai pryderon gyda chyfryngau cymdeithasol gan fod rhai postiadau yn dangos yn Saesneg yn unig ac nid yn ddwyieithog. Cadarnhaodd y Swyddog Iaith fod cyfryngau cymdeithasol yn her oherwydd bod yr algorithm yn amlygu un iaith neu'r llall yn unig.
- Dywedodd y Swyddog Iaith wrth y pwyllgor hefyd mai her arall gyda chyfryngau cymdeithasol oedd bod rhai adrannau wedi gwneud eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol mewn meysydd o fewn y Cyngor. Byddai angen eu hatgoffa o'r polisi iaith Gymraeg.

***PENDERFYNWYD*** *bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi'r gweithgareddau a gymerwyd yn ystod 2023 ac yn cymeradwyo'r gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023.*

**7 GWEITHGAREDDAU I HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG**

Cyflwynodd y Swyddog Iaith (SIG) yr adroddiad yn amlygu'r gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg (a ddosbarthwyd yn flaenorol); nod yr adroddiad oedd hysbysu'r pwyllgor am y gwaith mewnol ac allanol i hyrwyddo'r Gymraeg.

Roedd y rhain fel a ganlyn -

- Eisteddfod Staff

Cynhaliodd y Cyngor ei bedwerydd Eisteddfod rhwng 18 Chwefror ac 1 Mawrth fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Roedd y digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi proffil y Gymraeg, i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r iaith ac i ddathlu diwylliant Cymru. Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn ystod cyfnod o gryn ffocws ar y Gymraeg gydag Eisteddfod yr Urdd  ar fin dychwelyd i'r Sir ym mis Mai 2022. Unwaith eto eleni, oherwydd Covid-19, cynhaliwyd Eisteddfod y Staff yn ddigidol. Defnyddiwyd ein platfform Facebook staff preifat i gynnal yr Eisteddfod ac i hyrwyddo'r categorïau amrywiol i staff gystadlu ynddynt drwy uwchlwytho llun i gyd-fynd â phob categori. Roedd y categorïau yn cynnwys Anifail Anwes yn y Cyflwr Gorau, Anifail Anwes Mwyaf Dawnus, Cyn ac Ar Ôl/Hen a Newydd, brawddeg gan DEWI SANT, fy hoff le yn Sir Ddinbych a llawer mwy; gwnaed hyn er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn yr Eisteddfod eleni, penderfynwyd y dylai holl staff y Cyngor fod yn feirniaid. Fe ddewison nhw'r enillwyr trwy 'hoffi' lluniau/fideos ar y dudalen Facebook, a'r rhai wedi'u 'hoffi' fwyaf oedd yr enillwyr. Roedd yr ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn galonogol iawn eto eleni, gyda lefel dda o ymgysylltu â staff.

- Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych

Dychwelodd Eisteddfod yr Urdd i Sir Ddinbych eleni a chafodd ei chynnal ar Fferm Kilford ar gyrion Dinbych. Dechreuodd y paratoadau ar gyfer yr Eisteddfod yn 2018; fodd bynnag, bu'n rhaid ei ohirio ddwywaith oherwydd y Pandemig. Ailddechreuwydd trefnu'r Eisteddfod yn 2021 gyda llawer o fisoedd prysur yn arwain at y digwyddiad ei hun. Cyngor Sir Ddinbych oedd un o brif noddwyr yr Eisteddfod eleni, a ninnau hefyd yn noddi'r ddwy sioe – y sioe ysgolion cynradd 'Ni yw y Byd' a'r sioe ysgolion uwchradd 'Fi di Fi'. Cawsom babell fawr ar faes yr Eisteddfod, a'n thema oedd 'Darganfod Sir Ddinbych'. Roedd sawl adran i'r babell, a oedd yn cynnwys theatr, busnes/twristiaeth, celf a chrefft a chefn gwlad. Bu'n Eisteddfod hynod lwyddiannus, ac roedd pabell Sir Ddinbych yn brysur drwy'r dydd, bob dydd. Braf oedd gweld cymaint o gyffro a bwrlwm ar y maes ar ôl cyfnod mor hir.

- Paned a Sgwrs

Mae sesiynau'n dal i gael eu cynnal yn rhithiol. Lleihaodd niferoedd yn ystod 2021 o ganlyniad i'r sesiynau'n rhai rhithiol, ond maent wedi codi eto dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'r sesiynau'n mynd o nerth i nerth. Mae gennym glybiau darllen wyneb yn wyneb unwaith y mis yn Llyfrgelloedd Dinbych a Rhuthun. Mae staff yn dewis llyfr o'r gyfres 'Amdani', sy'n addas ar gyfer dysgwyr ac yn ei ddarllen erbyn y sesiwn nesaf, lle caiff y llyfr ei drafod wedyn, gan ganiatáu i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg i fynegi barn. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda staff yn ffafrio'r sesiynau wyneb yn wyneb. Mae tasgau ysgrifenedig wythnosol hefyd yn cael eu paratoi ar gyfer staff i'w helpu i ddatblygu eu medrau ysgrifennu.

Y camau nesaf: Amserlen gweithgaredd arfaethedig ar gyfer 2023:

Gweithgareddau trwy'r misoedd

- Hydref 2022 – Awst 2023 - Ymgyrch fewnol ar 'Dyblu eich defnydd dyddiol o'r Gymraeg
- Tachwedd - Rhagfyr 2022 - Cwpan y Byd FIFA
- Tachwedd 2022 – Mawrth 2023 – Strategaeth Iaith Gymraeg
- Tachwedd 2022 – Ionawr 2023 – Polisi ar Weithredu'r Gymraeg yn fewnol

Trafododd y pwyllgor y materion canlynol ymhellach –

- Roedd y pwyllgor yn llwyr gefnogi'r gweithgareddau a gyflawnwyd.
- Awgrymodd yr aelodau y dylid defnyddio cortynnau gwddf a bathodynnau yn amlach, ar-lein ac wyneb yn wyneb, a fyddai'n ei gwneud yn haws dechrau sgyrsiau.
- Cododd y pwyllgor fod angen anogaeth o amgylchedd da i gael pobl i siarad Cymraeg o fewn y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau i hybu'r Gymraeg.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w hystyried.

Trafododd y pwyllgor y materion canlynol ymhellach –

- Dywedodd y Swyddog Iaith wrth y pwyllgor y gallai'r Adroddiad ar lwyddiant y Strategaeth Iaith 2017-2022 gael ei ohirio tan fis Gorffennaf o bosibl.
- Holodd y pwyllgor a ellid trafod adroddiad ar y polisi Iaith Gymraeg o fewn addysg mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Cadarnhaodd y Swyddog Iaith hefyd y byddai adroddiad Safonau'r Gymraeg - Safon 98 yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar gyfer cyfarfod 5 Gorffennaf.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.*

## 9 ER GWYBODAETH - ADRODDIAD Y GYMRAEG FEL FFORDD O WEITHIO

***PENDERFYNWYD*** *bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn derbyn ac yn nodi Adroddiad Gwybodaeth y Gymraeg fel Ffordd o Weithio.*

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 15 Ebrill 2023 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Cyng Elen Heaton, Aelod Arweiniol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol/ Nicola Stubbins |
| **Awdur yr Adroddiad** | Margaret Watkins, Swyddog Datblygu Staff |
| **Teitl** | Fframwaith 'Mwy na geiriau / More than just words'' |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â datblygu'r fframwaith 'Mwy na geiriau'

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i aelodau am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r fframwaith 'Mwy na geiriau'.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaeth

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae 'Mwy na geiriau' yn fframwaith ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Nod y fframwaith 5 mlynedd a gyhoeddwyd yn 2022 yw sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod bod iaith yn rhan gynhenid o ofal a bod pobl sydd angen gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig. Gelwir hyn yn 'Cynnig Rhagweithiol'.

Fel rhan o fframwaith 'Mwy na Geiriau', mae angen sicrhau bod dinasyddion yn gallu:

- derbyn gofal iaith briodol o ansawdd uchel;

- cael mynediad at wasanaethau Cymraeg ar draws gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol pan fydd eu hangen arnynt;
- cael sicrwydd drwy ddarpariaeth y 'Cynnig Rhagweithiol' eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas.

O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych mae ymrwymiad clir i gyflawni newid a gwella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod angen yr iaith Gymraeg yn elfen allweddol o ofal, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Mae fframwaith 'Mwy na Geiriau' yn nodi sut y byddwn gyda'n gilydd yn bwrw ymlaen â chynnydd o dan thema gyffredinol diwylliant ac arweinyddiaeth. Bydd y camau gweithredu y bydd y Cyngor yn eu rhoi ar waith yn 2023-24 yn cynnwys:

- darparu manylion ar sut mae gwasanaethau ar hyn o bryd yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ochr yn ochr â thargedau i sicrhau gwelliant
- Cefnogi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol
- rhannu arfer gorau wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a sut i wneud "Cynnig Rhagweithiol" gyda'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol neu o fewn gwasanaethau a gomisiynir:
- darparu hyfforddiant iaith ac adnoddau i'r holl staff a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gynyddu eu hyder wrth gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru angen adroddiad blynyddol gan Sir Ddinbych ar gyflawni camau gweithredu penodol wrth roi'r fframwaith ar waith. Bydd monitro pellach ar weithrediad y fframwaith yn canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr o'r gwasanaeth a systemau monitro presennol (e.e. o fewn arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

Mae fframwaith 'Mwy na Geiriau' yn cyfrannu at iechyd a lles trigolion, yn ogystal â hyrwyddo'r cynnig gweithredol o dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor i gynyddu cyfleoedd i bobl gael mynediad at wasanaethau Cymraeg. Mae hefyd yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r fframwaith hwn yn effeithio'n bennaf ar wasanaethau cymdeithasol (Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Plant), er bod gorgyffwrdd â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn gorfforaethol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o gydrannau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw cael: "*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu : Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden".*

Mae gan y Cyngor hefyd rôl, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Iaith Gymraeg.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Ddim yn berthnasol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn berthnasol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y brif risg yw methu â chyflawni'r camau gweithredu a nodir yn fframwaith 'Mwy na Geiriau' sef na fydd dinasyddion yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith.

Er mwyn lleihau'r risgiau hyn, mae grŵp monitro wedi'i sefydlu ac yn cyfarfod bob tri mis i roi camau gweithredu'r fframwaith ar waith ac olrhain cynnydd.

Mae rhaglen o gyfathrebu a hyfforddiant wedi'i chynnal i sicrhau bod holl staff y gwasanaethau cymdeithasol yn deall y gweithgareddau a nodir yn y fframwaith ac yn gweithredu'n weithredol arnynt.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Ddim yn berthnasol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 15 Mawrth 2023 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Emrys Wynne / Gary Williams |
| **Awdur yr Adroddiad** | Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg |
| **Teitl** | Strategaeth Iaith Gymraeg 2023-28 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am ddatblygu Strategaeth Iaith Gymraeg newydd ar gyfer Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu'r strategaeth newydd

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

I gymeradwyo'r dull, amserlen a'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r strategaeth.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i bennu safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl awdurdodau lleol fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg, fel rhan o'u hymateb i'r Safonau.

4.2 Mae'r strategaeth bresennol, a fabwysiadwyd gan Gabinet Sir Ddinbych ym Mawrth 2017, yn amlinellu'r dull tuag at hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei ddefnydd o fewn y sir, ac mae disgwyl i'r Cyngor adolygu ei strategaeth bum mlynedd wedi'r dyddiad cyhoeddi.

4.3 **Mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg bresennol yn cynnwys Gweledigaeth:**

- Mae Sir Ddinbych yn sir ddwyieithog yn bennaf, gyda diwylliant a threftadaeth gyfoethog. Rydym yn falch iawn o'r ffaith hon ac eisiau i'r balchder hyn gael ei adlewyrchu yn ein rhyngweithiad o ddydd i ddydd gyda chymunedau, preswylwyr ac ein staff.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn ategu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; mae arnom eisiau i bobl allu cael mynediad i wasanaethau drwy eu dewis iaith yn naturiol, ym mhob cam o'u bywydau.

- Mae arnom eisiau gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i'n staff weithio yn y Gymraeg a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Dymunwn weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yn Sir Ddinbych.
- Mae gennym uchelgais i fod yn arweinwyr sector yn natblygiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru.

**4.4 Themâu cyfredol:**

- Mae Thema 1 yn edrych ar gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg yn ystod eu bywyd yn yr ysgol a'u hannog i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau yn y dyfodol. Rydym hefyd yn ceisio gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymdeithasol gan weithio gyda gwasanaethau hamdden ac ieuenctid.

- Mae Thema 2 yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau mewn perthynas â'r Gymraeg, gyda chanolbwynt allweddol ar effaith penderfyniadau polisi. Mae canolbwynt allweddol yn cael ei roi ar faterion cynllunio lleol a'r Fframwaith 'Mwy na Geiriau' er mwyn gwella gwasanaethau dwyieithog mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

- Mae Thema 3 yn edrych ar y ffordd y dylai Sir Ddinbych a'i bartneriaid datblygu economi gydnabod pwysigrwydd economi ffyniannus i ddyfodol y Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod strategaethau mewn lle i sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc aros yn y gymuned leol.

- Mae Thema 4 yn edrych ar y ffordd y gall y Cyngor wella'r Gymraeg trwy ddarparu hyfforddiant i staff a gwella ethos ddwyieithog yr awdurdod trwy hyrwyddo'r Gymraeg.

**4.5 Y Camau Nesaf:**

4.5.1 Mae'r Cyngor wedi edrych ar sawl esiampl o arferion gorau cynghorau eraill, y wybodaeth ddemograffig sydd ar gael ac yn edrych ar lwyddiannau'r strategaeth flaenorol.

4.5.2 Mae trafodaethau gydag Aelodau a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y meysydd blaenoriaeth presennol yn barod wedi digwydd ac maent wedi cael eu cymeradwyo mewn egwyddor.

4.5.3 Wrth ddrafftio'r strategaeth, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r gwasanaethau a'r partnariaethau mewnol ac allanol perthnasol er mwyn drafftio'r adroddiad terfynol.

4.5.4 Mae'r Cyngor wedi comisiynu y Ganolfan Cynllunio Iaith i ddadansoddi data, gwneud gwaith ymchwil, a llunio adroddiad llwyddiant ar ein Strategaeth Iaith 2017-2022. Rydym wrthi'n cyd-weithio ar y canfyddiadau a bydd rhai camau gweithredu yn y Strategaeth Iaith newydd yn deillio o'r canfyddiadau hyn.

**4.6 Amserlen Arfaethedig**

| CAM GWEITHREDU | ERBYN PRYD |
|---|---|
| Adroddiad Llwyddiant y Ganolfan Cynllunio Iaith | Mawrth 2023 |
| Gorffen drafftio'r Strategaeth | Mai 2023 |
| Cyflwyno fersiwn terfynol o'r Strategaeth i'r Pwyllgor Llywio | Mehefin 2023 |
| Penderfyniad y Cabinet ar Strategaeth Iaith Gymraeg | Mehefin 2023 |
| Gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg Newydd | Gorffennaff 2023 ymlaen |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg â diwylliant bywiog llae mae'r Gymraeg yn ffynnu sy'n rhan o amcanion allweddol Cynllun Corfforaethol 2022-27 y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes cyllid ar gael ar gyfer y gwaith hwn ond mae'r Gwasanaeth Cymunedau a Chwsmeriaid wedi talu £12,000 o'u coffrau ar gyfer costau comisiynu'r Ganolfan Iaith i gynhyrchu'r adroddiad llwyddiant. Nid dyma'r achos bob tro mae'r Strategaeth angen cael ei diweddaru (pob 5 mlynedd), dim ond gan mai hon yw ein Strategaeth Iaith a'n adroddiad llwyddiant cyntaf. Bydd unrhyw gostau eraill yn cael ei ysgwyddo gan bartneriaid presennol a thrwy ewyllys da aelodau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o brif elfennau'r Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw:
"Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn

diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.”

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy Safonau’r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad gydag Aelod Cabinet Arweiniol y Gymraeg a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Y brif risg yw’r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir yn ôl mesuriad y cyfrifiad cenedlaethol 2021. Mae holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at ddatblygiad y Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

# Strategaeth Iaith Gymraeg 2023-28
# Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd Mehefin 2023

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | **Error! Bookmark not defined.** |
| Y Gymraeg yn flaenoriaeth Corfforaethol | 6 |
| Llwyddiannau Strategaeth Iaith 2017-22 | 7 |
| Crynodeb Gweithredol | 8 |
| Crynodeb o'r Heriau | 9 |
| Yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych | 10 |
| Polisi a Deddfwriaeth Cenedlaethol | 11 |
| Thema 1: Addysg, Gwasanaeth Ieuenctid a Hamdden | 12 |
| Thema 2: Y Gymuned | 19 |
| Thema 3: Busnes a'r economi | 27 |
| Thema 4: Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor | 30 |
| Monitro a Rheoleiddio'r Strategaeth | 33 |

## Rhagair

Rydym yn falch o ddarparu'r fersiwn ddiwygiedig o'n Strategaeth Iaith Gymraeg, yn dilyn adolygiad strategol. Mae hi'n bum mlynedd ers i'r fersiwn gyfredol gael ei chymeradwyo, ac yn ystod y cyfnod yma mae nifer fawr o wellianau wedi'u cyflwyno i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn fewnol ac o fewn y gymuned ehangach. Roedd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi'r Llywodraeth i osod safonau o safbwynt yr Iaith Gymraeg ac roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg, fel rhan o'i ymateb i'r Safonau. Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth, rydym nawr yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig.

Mae adran 2 o'r Strategaeth yn amlinellu rhai o brif gyrhaeddiadau a gwersi sy'n deillio o'r strategaeth.

Mae'r Cyngor yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r Safonau Iaith Gymraeg ac eisoes wedi rhoi nifer helaeth o'r dulliau gweithredu a gytunwyd arnynt ar waith. Mae hefyd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r fframwaith 'Mwy Na Geiriau' sydd wedi ei sefydlu er mwyn gwella darpariaeth iaith Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynllun gweithredu cynhwysol yn ei le ac mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i roi'r cynllun hwnnw ar waith yn y sir, er budd trigolion y sir. Mae gan y Cyngor hefyd Bartneriaeth Strategol Y Gymraeg mewn Addysg sy'n edrych ar ddatblygiad strategol yr iaith Gymraeg yn ysgolion y sir. Mae Cynllun Gweithredu wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

### Cyfuno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Fforwm Iaith

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hyd at 2032 Sir Ddinbych yn cynnwys gwybodaeth am uniad y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol gyda Fforwm Iaith y Sir. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ymdrechion swyddogion y Fforwm Iaith wedi bod ar gyfuno'r Fforwm a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan ddilyn modelau llwyddiannus eraill.

Golyga hyn fod pob cyfarfod yn cael ei rannu'n ddwy ran gydag un rhan yn benodol i Addysg a'r llall yn benodol ar gyfer y Fforwm Iaith. Bydd isafswm o 3 cyfarfod yn ystod pob blwyddyn a bwriedir cael Cadeirydd annibynnol. Prif fanteision y strwythur hyn yw sicrhau bod cyfeiriad strategol clir, lleihau dyblygiad gweithgareddau a chynyddu'r cyfle i randdeiliad gydweithio â'i gilydd.

## Edrych tua'r dyfodol

Rydym wedi creu ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

- Mae'r Cynllun Corfforaethol 2022-27 yn gwneud ymrwymiad cadarn i sicrhau fod y Gymraeg yn iaith ffynianus ac sy'n esblygu.
- Sir ddwyieithog gan fwyaf yw Sir Ddinbych gyda threftadaeth a diwylliant cyfoethog. Rydym yn falch o hyn ac am i'r balchder hwnnw gael ei adlewyrchu yn ein gwaith dyddiol gyda chymunedau, gyda thrigolion a gyda'n staff.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod egwyddorion y Safonau Iaith yn sail i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; rydym am i bobl allu cael mynediad at wasanaethau drwy eu dewis iaith naturiol, ar bob cam o'u bywydau.
- Rydym am ychwanegu at ddiwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chymdeithasol i'n staff i weithio yn y Gymraeg ac i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Rydym am weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau fod y Gymraeg yn iaith ffyniannus yn Sir Ddinbych.
- Mae gennym uchelgais i fod yn arweinwyr sector yn natblygiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru.

Ein nod yw atal y gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn Sir Dinbych. O ganlyniad, rydym yn cynnig cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych o 0.5% dros y bum mlynedd nesaf, gyda'r bwriad o ystyried targed tymor hwy i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd y Cyngor yn darparu prif elfennau'r strategaeth hon drwy weithio'n strategol ac mewn cydweithrediad gydag amrywiaeth o sefydliadau cymunedol er mwyn prif ffrydio'r iaith Gymraeg ymhellach i ddarpariaeth gwasanaeth ac i sicrhau ei bod yn ystyriaeth hanfodol ym mhrosiectau, strategaethau a chynlluniau gwaith y dyfodol.

Mae'n hanfodol fod yr iaith Gymraeg yn ffurfio rhan allweddol o'r broses creu polisi ym mhob un o'n meysydd gwaith, gan gynnwys cynllunio, adfywio, addysg a gofal cymdeithasol. I'r diben hwn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau fod cynllunio ieithyddol yn ddeilliant mwy strategol, er mwyn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un nod: gwarchod a chyfoethogi'r Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Rydym wrth ein bodd fod nifer y siaradwyr Cymraeg ar gynydd yn Sir Ddinbych a gobeithiwn fod y gwaith partnaeriaeth sy’n mynd ymlaen gyda sefydliadau blaenllaw yn y Sir yn gwneud gwahaniaeth.

**Cynghorydd Emrys Wynne / Arweinydd Jason McLelland (lluniau)**

## Y Gymraeg yn flaenoriaeth Corfforaethol

Rydym yn chwarae ein rhan i gyflawni miliwn o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, drwy ddarparu'r Strategaeth Iaith Gymraeg gyda phartneriaid a chymunedau. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau fod pawb yn gallu cael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol, ac ar bob cam o'u bywydau
- Cefnogi plant a theuluoedd yn ystod eu blynyddoedd cynnar i ddatblygu hyder o ran defnyddio'r Gymraeg
- Cefnogi'r defnydd ehangach o'r Gymraeg a dathlu'r diwylliant Cymreig yn y gymuned, gan gynnwys lleoliadau gwaith
- Datblygu diwylliant ac ethos sy'n annog defnydd dyddiol o'r Gymraeg gan aelodau etholedig a staff y cyngor, a darparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i wella eu hyder yn defnyddio'r Gymraeg
- Datblygu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Ganolfan Gymraeg yn Llanelwy er lles y gymuned ehangach

## Llwyddiannau Strategaeth 2017-22

**(prif ganfyddiadau Y Ganolfan Gynllunio Iaith yn dilyn adroddiad llwyddiant)**

## Crynodeb Gweithredol

Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Sir Ddinbych wedi ei datblygu o amgylch y weledigaeth o sicrhau fod yr Iaith Gymraeg yn iaith ffyniannus sy'n esblygu o fewn cymunedau Sir Ddinbych, yn ogystal ag o fewn ein sefydliad.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, penderfynwyd barhau gyda'r themau yn y strategaeth wreiddiol gan eu bod yr un mor gymwys, perthnasol a chyfredol i gyrraedd ein nod.

Thema 1: Addysg, Gwasanaeth Ieuenctid a Hamdden

Thema 2: Y Gymuned

Thema 3: Busnes a'r economi

Thema 4: Gweinyddu mewnol y Cyngor

**Mae Thema 1** yn edrych ar gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n dod yn rhugl yn yr Iaith Gymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac annog mwy o ddefnydd o'r iaith wedi iddynt adael yr ysgol. Rydym hefyd yn edrych ar wella cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymdeithasol drwy weithio gyda'n gwasanaethau Ieuenctid a Hamdden.

**Mae Thema 1** yn edrych ar faterion sy'n effeithio cymunedau o safbwynt yr Iaith Gymraeg, gyda ffocws penodol ar effaith ein penderfyniadau polisi. Rhoddir ffocws allweddol ar faterion cynllunio lleol a'r Fframwaith Mwy Na Geiriau er mwyn cyfoethogi gwasanaethau dwyieithog mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

**Mae Thema 3** yn edrych ar sut y dylai Sir Ddinbych a'i phartneriaid o ran datblygu economi gydnabod pwysigrwydd economi ffyniannus i ddyfodol yr iaith Gymraeg a sicrhau fod strategaethau yn eu lle er mwyn sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc i aros yn y gymuned leol.

**Mae Thema 4** yn edrych ar sut gall y Cyngor hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant i staff a hybu ethos dwyieithog yr awdurdod drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd gwaith allweddol a nodwyd o safbwynt datblygu'r iaith Gymraeg. Mae manylion y broses ar gyfer monitro a rheoleiddio'r strategaeth hon yn cael eu cynnwys yn Adran 6.

## Crynodeb o’r Heriau

Er mwyn i ni allu canfod cyfleoedd i gynyddu defnydd o’r Gymraeg ac i gynyddu nifer y siaradwyr, mae angen i ni hefyd allu cydnabod yr heriau a’r rhwystrau sydd yn atal hynny. Mae angen i ni allu adnabod yr ardaloedd o’r sir, neu’r rhannau o fywyd, lle mae pobl yn defnyddio llai o’r iaith yn eu bywyd dyddiol, a deall pa ffactorau sydd yn gallu effeithio ar ddefnydd personol unigolyn o’r iaith.

Gwyddwn fod yr iaith yn parhau i wynebu heriau hanesyddol fel mudo, pobl ifanc yn symud allan o ardaloedd gwledig i chwilio am waith, a diffyg trosglwyddo’r iaith o un genhedlaeth i’r llall.  Mewn amser cawn weld faint o effaith mae covid 19 wedi’i gael ar gymunedau gwledig a’r ffaith fod pobl yn manteisio ar y gallu i weithio o bell.

Mae effaith y pandemig ar ffaith fod Sir Ddinbych wedi colli cyfanswm o -2.1% o siaradwyr Cymraeg yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf (cyfrifiad 2021) yn golygu ei bod hi’n fwy pwysig nag erioed i sicrhau fod yr iaith yn iaith fyw a ffyniannus o fewn ein cymunedau.

Er mwyn gallu annog y defnydd hwnnw o’r Gymraeg, mae angen ystyried effaith yr heriau, a sut y gallwn fynd i’r afael â nhw er mwyn cynyddu’r cyfleoedd i bobl ar draws y sir ddefnyddio ac arddel yr iaith o ddydd i ddydd.

- Heriau daearyddol: Gwahaniaethau yn nifer a chanran y siaradwyr ar draws y sir, a’r amrywiaeth swyddi/gwasanaethau sydd ar gael mewn rhai ardaloedd gwledig yn golygu bod angen atebion ac ymyraethau gwahanol er mwyn gwarchod y Gymraeg.
- Trosglwyddo’r iaith o fewn y teulu; Teuluoedd ddim yn trosglwyddo’r iaith i’w plant gan arwain at golli’r Gymraeg fel iaith cartref.
- Colli nifer siaradwyr ar ôl 16 oed: Dim dilyniant cadarn o ddefnydd wrth adael addysg a phobl ifanc yn rhoi’r gorau i ddefnyddio’r iaith wrth fynd mewn i fyd gwaith ac yn eu bywyd cymdeithasol fel oedolion.
- Statws y Gymraeg fel iaith busnes: Dim defnydd digon amlwg o’r Gymraeg gan fusnesau
- Hyder unigolion yn eu gallu a’u sgiliau: Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio’r iaith yn rheolaidd wrth gymdeithasu ac anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gallu arwain at ddiffyg hyder ac at lai o ddefnydd.

## Yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych – angen diweddaru yn unol â data cyfrifiad 2021.

Gwybodaeth yn dod gan Menter Iaith Sir Ddinbych yn dilyn diweddariad o Broffil Iaith Sir Ddinbych.

## Polisi a Deddfwriaeth Cenedlaethol

Sefydlodd Deddf Yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor fod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd cyfartal mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Rhoddodd y Ddeddf ddyletswydd ar y sector gyhoeddus i drin y ddwy iaith yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Rhoddodd Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Iaith Gymraeg, a chrewyd rôl Comisiynydd y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.  Mae hwn yn rhywbeth mae'r Cyngor yn ei gefnogi ac adlewyrchir hyn yn y cynlluniau gweithredu o fewn y strategaeth hon.

Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gydag egwyddor allweddol y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal. Mae gan y Comisiynydd hefyd bwerau i ymchwilio unrhyw gorff cyhoeddus am beidio cydymffurfio â'r safonau.  Cyflwynwyd y Safonau yn Sir Ddinbych yn gynnar ym mis Mawrth 2016 ac fe wnaethant ddisodli'r Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol.

# Thema 1 – Plant a Phobl Ifanc

**Y weledigaeth:**

- Y bydd 40% o’r holl ddisgyblion saith mlwydd oed wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032. Bydd cael sylfaen gadarn o ran siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn cynyddu dewis y disgybl a’r hyder i ddilyn llwybr cwbl ddwyieithog mewn addysg ac ymlaen i gyflogaeth ac i’r gymuned ehangach.
- Cynyddu defydd o’r iaith Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc drwy gael mynediad at addysg a gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol yn Gymraeg.

**Canlyniad a ddymunir:**

- Cyrhaeddiad gwell yn y Gymraeg ac mewn pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob cyfnod allweddol ym mhob ysgol.
- 32% o ddisgyblion blwyddyn 1 yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2027.
- 24% o fyfyrwyr 14 - 16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2027.
- Mwy o siaradwyr Cymraeg dan 21 yn Sir Ddinbych yng Nghyfrifiad 2031
- Mwy o weithgareddau hamdden a ieuenctid yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg

**Dangosyddion:**

- Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
- Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr Ysgol

- Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)
- Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynnydd yn y nifer y sesiynau gwaith ieuenctid dwyieithog.
- Cynnydd yn nifer y staff y gwasanaeth ieuenctid sy’n siarad/dysgu Cymraeg.

### Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg

Erbyn Medi 2032 dyhead Cyngor Sir Ddinbych yw y bydd 40% o’r holl ddisgyblion saith mlwydd oed wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd cael sylfaen gadarn o ran siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn cynyddu dewis y disgybl a’r hyder i ddilyn llwybr cwbl ddwyieithog mewn addysg ac ymlaen i gyflogaeth ac i’r gymuned ehangach.

Ym Medi 2020 roedd 28% o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn ysgolion Sir Ddinbych yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Erbyn 2032 dyhead Cyngor Sir Ddinbych, drwy ymgynghoriad llawn gyda budd-ddeiliaid, yw mynd heibio’r targed isaf o 37% a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru gyda’r nod o fod yn nes at y targed uwch o 41%.

Yn y cyfnod rhwng 2010 a 2020, cynyddodd y ganran a nifer y disgyblion a oedd yn derbyn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych. Mae hyn wedi digwydd yr un pryd â buddsoddiad yn ystâd yr ysgolion a gweithredu cynigion adrefnu ysgolion. Ar hyn o bryd mae yna leoedd gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a allai ddarparu ar gyfer 30% o’r holl ddisgyblion Blwyddyn 1 yn Sir Ddinbych, er nad yw wedi ei ddosbarthu’n gyfartal drwy’r Sir. Mewn rhai ardaloedd mae yna lai na 4% o leoedd gwag ar gael ac felly fe fydd twf pellach yn golygu fod angen gwneud newidiadau.

Yn Sir Ddinbych cynigir bodloni’r targed ar gyfer twf drwy gynyddu capasiti Ysgolion cyfrwng Cymraeg a newid dynodiad iaith ysgolion cyfrwng Saesneg. Canlyniad hyn fydd cynnydd graddol yn argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod y cynllun hwn, sef 10 mlynedd.

### Y Gwasanaeth Ieuenctid

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych yn cynnal prosiectau a gweithgareddau amrywiol ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae’r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn canolfannau ieuenctid ac mewn ysgolion a neuaddau cymunedol ar draws y sir. Mae'r

gwasanaeth yn cynnal gweithgareddau sy'n galluogi pobl ifanc i ddatblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth a chynyddu eu hyder a'u hunan-barch. Mae'r gweithgareddau, sydd am ddim, yn cynnwys chwaraeon, celf a chrefft, gemau, tripiau ac ymweliadau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu rhaglenni addysgiadol o safbwynt iechyd a lles, sgiliau byw'n annibynnol a dinasyddiaeth gymunedol a rheoli arian.

Er mwyn i'r Gymraeg gael ei gweld fel iaith gymunedol fyw, mae'n bwysig dangos i bobl ifanc yn arbennig ei bod yn bosibl defnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i strwythurau ffurfiol addysg a'i bod yn iaith sy'n cyfoethogi eu bywyd bob dydd. At y diben hwnnw, mae'n bwysig bod Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud hyn trwy amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau a rhaglenni a ddarperir yn ddwyieithog ar draws y sir. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn recriwtio, hyfforddi ac yn defnyddio gweithwyr ieuenctid iaith gyntaf ac yn hyrwyddo hyfforddiant a datblygiad sgiliau iaith Cymraeg ar draws yr holl staff ac aelodau gwirfoddol.

**Hamdden Sir Ddinbych Cyf**

Mae gwasanaethau Hamdden y Cyngor bellach yn cael eu darparu gan Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (HSDd) – Cwmni Masnachu Awdurdodau Lleol (LATC) sy'n eiddo i'r Cyngor. Nod HSDd yw darparu cyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd uchel sy'n denu lefelau uchel o gyfranogiad ac yn gwella lles trigolion ac ymwelwyr Sir Ddinbych. Mae HSDd yn darparu sesiynau nofio a ffitrwydd dwyieithog ac mae gwaith yn parhau i wella eu cynnig cyfredol, gyda chefnogaeth eu Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus, Cyfathrebu a Chyfryngau Cymraeg a benodwyd yn ddiweddar. Bydd HSDd yn cynnal archwiliad o'r Gymraeg a'r safonau cysylltiedig yn ystod y flwyddyn 2022/23, gyda'r nod o adeiladu ar arfer da sydd eisoes ar waith yn y cwmni o ran defnyddio ac argaeledd y Gymraeg.

**Fforwm Iaith Gymraeg Sir Ddinbych**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda'i phartneriaid, fel rhan o fforwm sirol sy'n ystyried y defnydd o Gymraeg mewn gweithgareddau ar hyd a lled y sir. Mae cymaint o asiantaethau sy'n gweithredu'n lleol sy'n rhannu'r un blaenoriaethau â ni a chamgymeriad fyddai peidio cydlynu ein hymdrechion a manteisio ar adnoddau ac arbenigedd ein gilydd i gyflawni'n un nod sef cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Aelodau cyfredol Fforwm Iaith Gymraeg Sir Ddinbych yw:-

- Menter Iaith Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Ddinbych
- Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych
- Yr Urdd
- Mudiad Meithrin
- Cymraeg i Blant
- Merched y Wawr
- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Popeth Cymraeg
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru
- Coleg Cambria

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | |
|---|---|---|
| Cwblhau cyfleusterau gofal plant newydd wedi eu lleoli ar yr un safle ag Ysgol Dewi Sant, y Rhyl ac Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych, gan sicrhau digonedd o gyfleusterau.<br><br>Uno ein grŵp strategol gyda fforwm y Gymraeg er mwyn gosod gwaith y grwpiau ochr yn ochr i weithio tuag at yr un nod a sefydlu cyswllt agosach gyda budd-ddeiliaid perthnasol. | Gwasanaeth Addysg<br><br>Gwasanaethau Addysg / Fforwm Iaith | |
| Cynyddu'r nifer o leoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael bob blwyddyn yn Ysgol | Gwasanaethau Addysg | |

| | | |
|---|---|---|
| Gymraeg y Gwernant, Llangollen i 30 drwy fuddsoddiad cyfalaf. | | |
| Gweithio gyda ysgolion cyfrwng Saesneg i newid eu dynodiad ieithyddol er mwyn sicrhau cynnydd o 5% yn y ganran o ddisgyblion blwyddyn 1 sy’n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. | Gwasanaethau Addysg | |
| Gweithio â phartneriaid i sicrhau twf yn nifer y staff sy’n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu Cymraeg fel pwnc. | Gwasanaethau Addysg | |
| Bydd y Cyngor Sir yn cynyddu'r argaeledd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgarwch gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant i’r staff i gynyddu eu sgiliau iaith a'u hyder yn y Gymraeg ac i hyrwyddo recriwtio mwy o staff a gwirfoddolwyr dwyieithog yn y dyfodol. | Gwasanaethau Ieuenctid | |
| Bydd y Cyngor Sir yn parhau i ddatblygu'r bartneriaeth gyda'r Urdd a phartneriaid y Fforwm Iaith Gymraeg er mwyn | Gwasanaethau Ieuenctid / Fforwm Iaith | |

| | | |
|---|---|---|
| ehangu'r gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i bobl ifanc Sir Ddinbych. | | |
| Bydd gan y Cyngor Sir Bencampwr yr Iaith Gymraeg o fewn Gwasanaeth Ieuenctid i gefnogi'r staff i wreiddio mwy o Gymraeg achlysurol yn ein sesiynau ac i greu gweithgareddau i ddatblygu hyder pobl ifanc wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad cymdeithasol ac addysg anffurfiol. | Gwasanaethau Ieuenctid | |
| Dylunio a chyhoeddi llyfryn i hyrwyddo addysg Gymraeg a byw yn ddwyieithog yn Sir Ddinbych | Gwasanaethau Addysg / Fforwm Iaith / Tîm Cyfathrebu a Marchnata | Erbyn Ionawr 2024 |
| Creu tudalen ar wefan Cyngor Sir Ddinbych i gyd fynd â'r llyfryn uchod. | Gwasanaethau Addysg / Tîm Cyfathrebu a Marchnata | Erbyn Ionawr 2024 |
| Archwilio'r galw am wersi (nofio/dosbarthiadau ffitrwydd) trwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi cynlluniau mewn lle i ddarparu'r gwersi hynny lle mae'r galw. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Urdd i gyflawni hyn | Hamdden Sir Ddinbych cyf | |

| | | |
|---|---|---|
| Hyfforddi mwy o hyfforddwyr dwyieithog mewn amrywiaeth o chwaraeon i allu cynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. | Hamdden Sir Ddinbych cyf | Erbyn Mawrth 2027 |
| Mabwysiadu Pencampwyr Iaith Gymraeg ym mhob Canolfan Hamdden i fod yn gyfrifol am hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a datblygu ethos Gymreig. | Hamdden Sir Ddinbych cyf | Erbyn Mawrth 2024 |
| Cefnogi staff gweinyddol a rheng flaen sy'n gallu siarad/dysgu Cymraeg o fewn y gwasanaeth hamdden i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn anelu at ddarparu gwasanaeth dwyieithog cyflawn. | Hamdden Sir Ddinbych cyf | Erbyn Mawrth 2027 |

## Thema 2 – Y Gymuned

**Y weledigaeth:**

- Mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yng nghymunedau Sir Ddinbych

**Canlyniadau a ddymunir:**

- Hyrwyddo mwy ar wasanaethau'r cyngor a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol.
- Gwell dealltwriaeth o effeithiau polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor ar yr iaith Gymraeg a manteision dwyieithrwydd mewn cymunedau.

**Dangosyddion:**

- Cynnydd yn nifer o bobl sy'n symud i Sir Ddinbych sy'n cael mynediad at wybodaeth ynglŷn â dwyieithrwydd.
- Nifer y penderfyniadau polisi'r cyngor lle ystyriwyd effaith ar yr iaith Gymraeg.

**Hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn cymunedau**

Rhaid i'r iaith Gymraeg fod yn iaith fyw, lle mae'n arferol i bobl gael dewis pa iaith y maent yn ei defnyddio; lle maent yn cael cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau yn naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith fyw drwy ein cyswllt gyda'n trigolion.

At y diben hwn, bydd y Cyngor yn sicrhau fod ei holl gyfathrebu â thrigolion yn ddwyieithog; yn gywir ei ystyr, a bydd gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hyrwyddo drwy gylchlythyr trigolion, gwefan y Cyngor a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn gweithio gydag oedolion sy'n ddysgwyr i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu a chyfoethogi sgiliau iaith Gymraeg drwy gydweithio effeithiol.

Byddwn hefyd yn cryfhau'n cysylltiadau gwaith gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â datblygu'r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych, gan sicrhau fod gan bobl ddealltwriaeth gadarn o fanteision dwyieithrwydd, yr angen i gyfoethogi diwylliant dwyieithog y sir ac i ddarparu cyfleoedd i'r iaith Gymraeg ffynnu'n organig.

**Gwasanaethau Llyfrgelloedd**

Mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn darparu'r gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus statudol a'r gwasanaeth wyneb yn wyneb ar gyfer cwsmeriaid ar ran y Cyngor o wyth llyfrgell yn y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen. Mae Gwasanaeth Llyfrgell Gartref yn darparu gwasanaeth wedi'i deilwra i bobl nad ydynt yn gallu cael mynediad i'w llyfrgell leol oherwydd gwendid, anabledd neu gyfrifoldebau gofalu. Mae llyfrgelloedd hefyd yn darparu gwasanaeth digidol 24/7 ar gyfer lawrlwytho llyfrau, cael gafael ar wybodaeth ac archebu llyfrau corfforol; a darparu cyfleusterau i bobl gael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth a chyngor yn eu cymuned leol.

Mae staff ddwyieithog ar gael ar y rheng flaen ym mhob llyfrgell i gynnig gwasanaeth Cymraeg, ac mewn sawl cymuned mae'n un lleoliad lle gall pobl fynd am sgwrs Gymraeg.

Darperir stoc gynhwysfawr o lyfrau Cymraeg ar gyfer plant ac oedolion ym mhob llyfrgell, i'w benthyg yn rhad ac ddim. I sicrhau cydraddoldeb mynediad, y llyfrgell leol yw'r unig le i gaffael llyfrau print bras a llyfrau llafar ar ddisg yn y Gymraeg. Cynigir hefyd lyfrau ar gyfer pobl sy'n dysgu'r Gymraeg ac mae gan Sir Ddinbych hefyd gasgliad cadw helaeth o lyfrau

a chylchgronnau Cymraeg. Mae’r catalog arlein ac ap Pori yn ddwyieithog ac yn galluogi cwsmeriaid i reoli eu cyfrifon ac archebu llyfrau arlein.

Mae’r ddarpariaeth o adnoddau digidol Cymraeg, yn elyfrau, elyfrau llafar ac egylchgronnau, yn cynyddu yn gyson diolch i ymdrechion cydweithredol y sector llyfrgelloedd ar draws Cymru mewn cydweithrediad â’r Cyngor LIyfrau. Mae rhain ar gael i’w lawrlwytho am ddim i aelodau llyfrgell.

Darperir rhaglen o weithgaredd dwyieithog i hyrwyddo darllen gan gynnwys Sialens Ddarllen yr Haf, grwpiau darllen, a digwyddiadau diwylliannol. Mae darpariaeth Dechrau Da ar gyfer plant 0-3 oed yn gyflwyno llawer o deuluoedd i’r Gymraeg am y tro cyntaf ac yn eu hannog i fagu eu plant yn ddwyieithog ac ystyried gofal ac addysg Gymraeg.

**Polisi a gwneud penderfyniadau**

Mae nifer o elfennau eraill o waith y Cyngor sy'n cael effaith bosib ar yr iaith Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Safonau’r Iaith Gymraeg yw'r effeithiau y gallai unrhyw bolisi neu benderfyniad ei gael ar yr iaith Gymraeg, boed yn gadarnhaol, yn niwtral neu'n negyddol. Byddwn yn sicrhau bod pob gwasanaeth yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau, yn cynnal asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg ble bo'n addas a nodi cyfleoedd i liniaru effeithiau negyddol unrhyw benderfyniad.

Bydd y Cyngor yn ystyried defnydd yr iaith Gymraeg mewn meysydd gwneud penderfyniadau polisi allweddol, a Chynllunio fydd un o’r prif feysydd hynny o’n gwaith.

Cyhoeddwyd y Cyngor bolisi ar ddyfarnu grantiau (Safon 94) a pholisi gweithredu’r Gymraeg yn fewnol (Safon 98) yn ystod 2023. Mae’r polisi ar ddyfarnu grantiau wedi cael ei ddatblygu er mwyn rhoi cymorth i swyddogion i gydymffurfio gofynion Safonau’r Gymraeg wrth gyhoeddi grantiau ar ran Cyngor Sir. Nod y polisi yw cynorthwyo swyddogion i sicrhau bod ystyriaethau o’r Gymraeg yn elfen integredig o'r broses grantiau yng Nghyngor Sir Ddinbych, yn ogystal â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth ddod i benderfyniadau.

Mae gofyn i bob aelod o staff y Cyngor gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg, sy’n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chyda’r polisi gweithredu’r Gymraeg yn fewnol ceir manylion pellach amdanynt. Bwriad Safonau’r Gymraeg yw ei gwneud hi’n haws i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y

mae’r Cyngor yn bwriadu gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac hefyd yn fewnol yn y Cyngor.

**Cynllunio**

Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn darparu gweledigaeth o safbwynt sut gall datblygiadau newydd a defnydd o dir ymdrin â'r heriau a wynebu'r sir dros y degawd nesaf. Fel y nodwyd gan y Cyngor Sir yn ei Gynllun Datblygu Lleol - 'Drwy ddarparu fframwaith cydgysylltiedig i benderfynu ble, pan a faint o ddatblygiadau newydd y gellir eu datblygu, CDLl Sir Ddinbych, drwy egwyddorion, yn anelu at wneud y sir yn wyrddach, yn decach ac yn fwy llewyrchus gyda chydnabyddiaeth bod y iaith a diwylliant gael eu cynnal a'u wedi'u diogelu.' Polisi Cynllunio Cymru ynghyd â Chymru'r Dyfodol, Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 yn gosod polisïau defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae rhai dogfennau'n cael eu hategu gan ganllawiau ar ffurf Nodiadau Cyngor Technegol (TANs). Mae TAN 20 yn darparu canllawiau ar y Gymraeg a chynllunio defnydd tir.

**Fframwaith ‘Mwy na Geiriau’**

Mae iaith yn bwysig yn y maes iechyd a gofal gan mai cyfathrebu yw sail y gallu i ymateb i anghenion unigolion.  Mae iaith yn elfen allweddol o ofal, yn arbennig wrth drafod pryderon sensitif ac emosiynol.

Mae ‘Mwy na Geiriau’ yn canolbwyntio ar gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol.  Yma’n Sir Ddinbych, rydym yn parhau i ystyried camau a fydd yn sicrhau ein bod yn cynyddu’r cyfleoedd i bobl gael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.  Byddwn yn gwneud hyn drwy barhau i ddarparu a datblygu gwasanaethau Cymraeg, gan gynnwys recriwtio staff gyda sgiliau Cymraaeg, sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn amlwg o’r pwynt cyswllt cyntaf a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio mewn technoleg.  Bydd y tîm datblygu'r gweithlu hefyd yn parhau i gynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg a datblygu ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Ystyried effaith gwneud polisi/penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg a chymunedau | Holl wasanaethau'r Cyngor | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Bydd ein llyfrgelloedd cyhoeddus yn daparu mynediad at ddeunydd darllen hamdden ac addysgiadol Cymraeg yn lleol o fewn cymunedau, yn rhad ac am ddim, gan gynnwys llyfrau print, print bras, llyfrau llafar, e-lyfrau, e-lyfrau llafar, cylchgronnau, e-gronnau a phapurau. | Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Cyd weithio fel sector yn genedlaethol i ehangu'r ddarpariaeth o adnoddau darllen digidol yn y Gymraeg sydd ar gael yn rhad ac am ddim i ddarllenwyr | Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Ebrill 2028 |
| Bydd ein llyfrgelloedd yn darparu cynlluniau Darllen yn Well sy'n cynnig llyfrau Cymraeg i gynorthwyo gyda chyflyrau iechyd meddwl a dementia, i oedolion a phlant, gan ehangu i gynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ifanc | Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Ebrill 2028 |

| | | |
|---|---|---|
| Cydweithio yn genedlaethol i ddatblygu a darparu cynlluniau pellach megis Ffrindiau Darllen ac EmpathyLab | Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Ebrill 2028 |
| Hyrwyddo'r defnydd o'r ap ddwyieithog Pori (ap cenedlaethol llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru) sy'n cynnig mynediad i gyfrif personol pob aelod llyfrgell er mwyn archebu ac adnewyddu llyfrau, cyrchu ac archebu llyfrau print a digidol, dod o hyd i'w llyfrgell agosaf, a gwirio argaeledd unrhyw lyfr Cymraeg | Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Ebrill 2028 |
| Darparu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i blant ac oedolion sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig (e.e. grwpiau darllen, Sialens Ddarllen yr Haf, lansiadau ac ymweliadau awduron) gan gynnwys mewn partneriaeth ag asiantaethau a mudiadau lleol a chenedlaethol | Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Cyflwyno'r Gymraeg i rieni plant 0-3 oed trwy gyfrwng Amseroedd Rhigwm Dechrau Da mewn llyfrgelloedd ac yn ddigidol | Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd ein Siopau Un Alwad yn darparu cymorth a chyngor am wasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein cymunedau lleol | Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Un o amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw cefnogi a gwella'r Iaith Gymraeg. Wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r prosesau asesu safle cysylltiedig yn asesu effeithiau strategaeth ofodol, polisïau a dyraniadau'r cynllun ar yr iaith Gymraeg. Lle bo tystiolaeth yn dangos effaith andwyol, bydd diwygiadau i'r strategaeth neu fesurau lliniaru yn cael eu nodi. | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Bydd yr asesiad yn parhau hyd nes y bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd yn cael ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Ddinbych. Unwaith y bydd y CDLl Newydd wedi'i fabwysiadu bydd ei bolisïau yn cynorthwyo i gefnogi a gwella'r Iaith Gymraeg. |
| Marchnata mwy ar y cyrsiau Cymraeg sydd ar gael yn y gymuned | Tîm cyfathrebu a'r Fforwm Iaith Gymraeg Sirol | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Presenoldeb mewn digwyddiadau sirol allweddol er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg | Fforwm Iaith Gymraeg Sirol | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Cyd-hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol partneriaid | Fforwm Iaith Gymraeg Sirol | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Hwyluso a chefnogi digwyddiadau o bwysigrwydd cenedlaethol sy’n hyrwyddo’r iaith a’r diwylliant Cymraeg | Holl wasanaethau’r Cyngor a’r Fforwm Iaith Gymraeg Sirol. | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Rhannu arferion gorau a dull galluogi ar draws y system, gan gynnwys sicrhau ymwbyddiaeth o’r cynnig rhagweithiol fel bod y cynnig yn rhan annatod o’r broses o ddarparu gwasanaethau o safon. | Gofal Cymdeithasol | Ebrill 2028 |

**Thema 3 – Busnes a’r Economi**

**Y weledigaeth:**

Cydnabod pwysigrwydd economi ffyniannus i ddyfodol yr iaith Gymraeg.

**Canlyniad a ddymunir:**

- Dylai’r Cyngor Sir a phartneriaid datblygu economaidd eraill gydnabod pwysigrwydd dyfodol yr iaith Gymraeg i gymunedau ffyniannus a dylid cynhyrchu strategaethau er mwyn sicrhau fod pobl ifanc yn enwedig yn cael cyfle i fyw a gweithio yn eu cymunedau lleol a chyfrannu at eu ffyniant.

**Dangosyddion:**

- Nifer y busnesau yn Sir Ddinbych yn cael eu hyfforddi ynglŷn â manteision dwyieithrwydd drwy ymgyrch wedi ei thargedu.
- Nifer y busnesau yn arddangos arwyddion / deunyddiau hyrwyddo Cymraeg o fewn eu busnes drwy ymgyrch wedi ei thargedu.
- Nifer y cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at waith yn lleol.
- Mwy o fusnesau yn cydnabod y Gymraeg fel sgil penodol ac yn hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg o fewn eu busnes

**Cefndir Economaidd a Chymdeithasol**

Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd 95,800 o bobl yn byw yn Sir Ddinbych. Mae economi Sir Ddinbych yn amrywiol iawn gyda dros 3600 o fentrau wedi'u lleoli yn y sir. Yn y gogledd, mae trefi fel y Rhyl a Phrestatyn yn ganolfannau allweddol ar gyfer y sectorau manwerthu, hamdden a thwristiaeth. Mae'r gogledd hefyd yn gartref i Barc Busnes Llanelwy, sy'n gartref i nifer o gwmnïau technolegol pwysig. Yn y de, mae'r ardal wledig yn rhwydwaith o bentrefi bach traddodiadol sy'n gyrchfannau twristiaeth pwysig. Mae harddwch naturiol y tirlun, sydd wedi ei ddynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn denu ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd. Mae’r rhan fwyaf o’r gweithlu’n cael eu cyflogi mewn Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (25%), Cyfanwerthu a Manwerthu (15%), Addysg (9%) ac Adeiladu (9%). Y sector cyhoeddus, sy’n cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a gweinyddu, yw’r cyflogwr mwyaf yn y sir, gyda chyfran uwch o’r boblogaeth yn gweithio yn y sector hon nac mewn unrhyw ardal awdurdod lleol arall yn y DU.

Mae swyddi yn y sector busnes yn tueddu i fod mewn sectorau fel manwerthu, hamdden a thwristiaeth, ac yn gyffredinol mae'r rhain yn swyddi tymhorol, cyflog isel.

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Datblygu tudalen we Cymraeg mewn Busnes ar wefan Cyngor Sir Ddinbych | Datblygiad Economaidd a Busnes | Ebrill 2024 |
| Mynd ati i hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg drwy Fwletin Busnes a gyhoeddir yn fisol i’r gymuned fusnes | Datblygiad Economaidd a Busnes | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Codi Ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hyfforddiant Cymraeg i Oedolion sy'n gweithio yn y gymuned fusnes. | Datblygiad Economaidd a Busnes | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Comisiynu hyfforddiant iaith Gymraeg i fusnesau a ddarperir yn ddwyieithog. | Datblygiad Economaidd a Busnes | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Creu llyfryn Cymraeg mewn Busnes i amlygu arfer gorau wrth hyrwyddo’r arlwy Cymraeg ymhlith y gymuned fusnes. | Datblygiad Economaidd a Busnes | Ebrill 2025 |
| Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil ychwanegol | Datblygiad Economaidd a Busnes | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |

| | | |
|---|---|---|
| ac annog busnesau i gynyddu eu defnydd o'r iaith. | | |

## Thema 4 - Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor

Mae economi Sir Ddinbych yn dibynnu'n helaeth ar y sector cyhoeddus. Mae gan y sir gyfran uwch o bobl yn gweithio yn y sector cyhoeddus nag unrhyw ran arall o'r DU, yn arbennig o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Cyngor Sir ymysg y corf cyhoeddus fwyaf o safbwynt cyflogaeth, caiff oddeutu 5,000 o bobl eu cyflogi gan y Cyngor.

Mae gan y Cyngor felly rôl ganolog o safbwynt darparu arweinyddiaeth a gosod esiampl mewn amrywiaeth o feysydd amrywiol iawn. Yn ganolog I hyn gall y Cyngor gynnig arweinyddiaeth gref o safbwynt datblygu'r iaith Gymraeg a hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth unigryw'r ardal. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig ystyried rôl y Cyngor fel darparwr gwasanaethau ar gyfer cymuned ddwyieithog ond hefyd fel cyflogwr arwyddocaol.  Caiff hyn ei gydnabod yn Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol y Cyngor sy'n nodi taw – 'Bwriad y Strategaeth yw adeiladu ar y cryfderau economaidd a ddarperir gan hunaniaeth a diwylliant Cymreig cryf Sir Ddinbych, ac i annog busnesau, trigolion ac ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.'  Er mwyn ymateb i'r gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg dros ddegawdau diweddar, mae angen i'r Cyngor Sir fod yn fwy rhagweithiol drwy osod disgwyliadau uwch i'w hun fel corff a all arwain y ffordd i godi statws a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sir. Dros gyfnod o amser, gallai'r dull gweithredu hwn arwain at ddatblygu ethos gweithlu a diwylliant a fyddai'n adlewyrchu natur ddwyieithog y cymunedau y mae'r Cyngor yn eu gwasanaethu.

Mewn amser, byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu gyda hyder i gychwyn gweinyddu yn naturiol ddwyieithog yn y dyfodol.  Dyma ganlyniadau archwiliad yn 2022 o sgiliau iaith y staff:-

| **Lefel** | **Gwrando a Siarad** | | **Darllen a Deall** | | **Ysgrifennu** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Lefel 0** | 388 | 15% | 466 | 18% | 714 | 27% |
| **Lefel 1** | 970 | 37% | 954 | 36% | 773 | 29% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel 2** | 306 | 12% | 239 | 9% | 261 | 10% |
| **Lefel 3** | 158 | 6% | 153 | 6% | 138 | 5% |
| **Lefel 4** | 167 | 6% | 182 | 7% | 109 | 4% |
| **Lefel 5** | 167 | 6% | 161 | 6% | 138 | 5% |
| **Dim gwybodaeth** | 487 | 18% | 488 | 18% | 509 | 19% |
| **Cyfanswm** | **2,643** | **100%** | **2,643** | **100%** | **2,643** | **100%** |

Er mwyn adeiladu ar y sylfeini hyn mae'n bwysig fod y Cyngor Sir yn cydnabod yr iaith Gymraeg fel sgil o fewn y gweithlu ac yn magu hyder staff i ddefnyddio'r iaith Gymraeg drwy eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn gallu gweithio'n naturiol ddwyieithog ac i annog a chefnogi staff heb sgiliau iaith Gymraeg i ddysgu'r iaith dros gyfnod o amser.

**Pencampwyr y Gymraeg**

Mae gan bob Gwasanaeth yn y Cyngor Bencampwr y Gymraeg gyda chyfarfodydd yn cael yn rheolaidd i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion da a gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth trylwyr o anghenion y Safonau a'r strategaeth gysylltiedig yn ogystal â chynnal ymarferion siopwr cudd. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r Pencampwyr er mwyn hybu a hwyluso digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg o fewn y Cyngor.

Yn ogystal â chefnogi staff presennol y Cyngor, rydym yn parhau i roi ystyriaeth fanwl i bolisïau recriwtio a gweithlu'r Cyngor er mwyn cefnogi'r nod o ddatblygu fel corff dwyieithog. Mae hyn yn cynnwys categoreiddio swyddi a hyrwyddo'r angen i osod gofynion ieithyddol mewn swydd ddisgrifiadau. Mewn ymateb i'r Safonau mae'r Cyngor wedi bod yn rhoi gweithdrefnau ar waith er mwyn datblygu ac amlinellu sut y mae'n

bwriadu cynllunio ar gyfer datblygu gweithlu dwyieithog, meithrin sgiliau ieithyddol staff a mabwysiadu polisi recriwtio a fyddai'n galluogi'r Cyngor i normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ei waith gweinyddu o ddydd i ddydd ac yn y gwasanaethau mae'n ei ddarparu.

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Parhau i ddatblygu rôl gwasanaeth Pencampwyr yr Iaith Gymraeg | Pencampwyr yr Iaith Gymraeg | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Hyrwyddo a marchnata cyrsiau Iaith Gymraeg | Swyddog yr Iaith Gymraeg / Adnoddau Dynol | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Sicrhau fod yr holl staff yn cwblhau modiwl e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth yr Iaith Gymraeg | Holl staff y Cyngor | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Trefnu diwrnodau blynyddol cenedlaethol sy'n dathlu'r Iaith Gymraeg - e.e. Diwrnod Shwmae Su'mae | Swyddog yr Iaith Gymraeg a Phencampwyr yr Iaith Gymraeg | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Cynnal ymgyrchoedd mewnol i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg | Swyddog yr Iaith Gymraeg a Phencampwyr yr Iaith Gymraeg | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |
| Categoreiddio holl swyddi'r Cyngor o ran sgiliau iaith Gymraeg | Adnoddau Dynol a Swyddog yr Iaith Gymraeg | Ebrill 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnal digwyddiadau a gweithgareddau i annog staff i gymryd rhan a chadwm momentwm i fynd i ddysgu Cymraeg e.e sesiynau Paned a Sgwrs, Eisteddfod Staff ayb | Swyddog yr Iaith Gymraeg a Phencampwyr y Gymraeg | Adolygu ar ddiwedd cyfnod y Strategaeth |

## Monitro a Rheoleiddio

Strategaeth gorfforaethol yw Strategaeth yr Iaith Gymraeg a chyfuniad yw'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig o'r holl ddulliau gweithredu sy'n ymwneud â hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.  O ganlyniad, bydd nifer o wahanol adrannau'r Cyngor yn rhoi'r cynllun gweithredu ar waith, yn ogystal â rhai sefydliadau partner.

Bydd pob cam gweithredu yn y cynllun gweithredu wedi ei gynnwys yng nghynllun busnes y gwasanaeth perthnasol a bydd yr aelod arweiniol a'r pennaeth gwasanaeth yn eu monitro.  Yr arweinydd cyffredinol ar y Strategaeth Iaith Gymraeg yw'r aelod arweiniol sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

Bydd gan bwyllgorau archwilio'r Cyngor rôl bwysig wrth fonitro'r Strategaeth, fel y bydd gan y Pwyllgor Llywio'r Gymraeg o fewn Sir Ddinbych.  Byddwn yn adolygu ein hamcanion a chamau gweithredu yn flynyddol ac rydym yn derbyn na fydd popeth rydym yn gobeithio ei wneud yn bosibl wrth i amgylchiadau newid. Byddwn bob amser yn dryloyw am unrhyw newidiadau y byddwn yn eu gwneud, ac yn adrodd ar unrhyw newidiadau a'r rhesymwaith y tu ôl iddynt.

Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli perfformiad cryf ar waith a fydd yn berthnasol i fonitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Bydd hyn yn cynnwys fframwaith perfformiad cadarn sydd yn arddangos dangosyddion, mesuryddion perfformiad a gweithgareddau gyda thargedau clir a disgwyliadau a fydd yn cyfateb i'r uchelgais sydd gennym ar gyfer ein cymunedau.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO’R IAITH GYMRAEG**

| **Cyfarfod** | **Eitem (Disgrifiad / Teitl)** | | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **5 Gorffennaf 2023** | 1 | Adroddiad ar lwyddiant y Strategaeth Iaith 2017-2022 / Report on the success of the Language Strategy 2017-2022 | | Manon Celyn |
| | | | | |
| **15 Tachwedd 2023** | | | | |
| | | | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag